O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2012 Rhif 446 (Cy. 74)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Cyfnewidfa Queensferry i Barc Dewi Sant, Sir y Fflint) (Gwaharddiadau a Therfyn Cyflymder 40 MYA Dros Dro) 2012

*Gwnaed* *21 Chwefror 2012*

*Yn dod i rym* *5 Mawrth 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o'r Gefnffordd o Ddolgellau i Fan i'r De o Benbedw (yr A494) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd a chyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei gyflawni arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 5 Mawrth 2012. Ei enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Cyfnewidfa Queensferry i Barc Dewi Sant, Sir y Fflint) (Gwaharddiadau a Therfyn Cyflymder 40 MYA Dros Dro) 2012.

**2.** (1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n achosi'r Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod hwnnw sy'n cychwyn am 18:30 o'r gloch ar 5 Mawrth 2012 ac a ddaw i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro'n cael eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y darnau o'r gefnffordd” *(“the lengths of the trunk road”)* yw'r darnau o'r gefnffordd sydd wedi eu nodi yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu Atodlen sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar wahân i gerbyd esempt, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd ar wahân i gerbyd esempt deithio, ar y darnau o’r gefnffordd sydd wedi eu nodi yn Atodlen 1.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, farchogaeth unrhyw feiciau, na pheri i unrhyw feiciau gael eu marchogaeth, ar y darnau o'r gefnffordd sydd wedi eu nodi yn Atodlen 1.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff unrhyw gerddwyr fynd ar hyd y darnau o'r gefnffordd sydd wedi eu nodi yn Atodlen 1.

**6.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd deithio, ar gyflymder o fwy na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd sydd wedi eu nodi yn Atodlen 2.

**7.** Nid yw darpariaethau erthyglau 3, 4, 5 a 6 ond yn gymwys yn ystod cyfnodau pan fo cymhwysiad y gwaharddiad a'r cyfyngiad y cyfeirir atynt yn yr erthyglau hynny'n cael ei ddangos gan arwyddion traffig, ac i'r graddau y’i dangosir.

**8.** Uchafswm hyd y Gorchymyn hwn fydd 6 mis.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 21 Chwefror 2012.

***G R Morgan***
**G MORGAN**
Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27: disodlwyd Adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## ATODLEN 1

**Gwaharddiad Dros Dro ar Gerbydau, Cerddwyr a Beicwyr**

i) Hyd cyfan y ffordd ymuno tua'r gorllewin ar y Gefnffordd ym Mharc Dewi Sant, Sir y Fflint.

ii) Hyd cyfan y ffordd ymuno tua'r dwyrain ar y Gefnffordd yng Nghyfnewidfa Queensferry, Sir y Fflint.

## ATODLEN 2

**Terfyn Cyflymder 40 MYA Dros Dro**

i) Y darn o'r brif gerbytffordd tua'r gorllewin, ar y gefnffordd, sy'n ymestyn i gyfeiriad y gorllewin o ganolbwynt Cyfnewidfa Plough Lane am bellter o 2100 o fetrau.

ii) Y darn o'r brif gerbytffordd tua'r dwyrain, ar y gefnffordd, sy'n ymestyn i gyfeiriad y dwyrain o ganolbwynt Cyfnewidfa Plough Lane am bellter o 1500 o fetrau.